



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

15 MEDI 2020

Adroddiad gan: Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch GwE (COVID-19 - Diogelu Cymru yn y Gwaith)

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Asesiadau Risg GwE i'r Cyd-bwyllgor (COVID-19 - Diogelu Cymru yn y Gwaith).

2.0 Cefndir

2.1 Er mwyn atal lledaeniad COVID-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau Coronafirws, sy'n gosod cyfyngiadau llym. Rhaid i fusnesau sydd â'r hawl i weithredu, neu leoliadau sydd â'r hawl i agor wneud hynny'n ddiogel ac mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafirws, yn ogystal â gofynion cyfreithiol eraill ar gyflogwyr (megis deddfwriaeth lechyd a Diogelwch).

2.2 Mae gan GwE ddyletswydd gyfreithiol i reoli'r risgiau yn y gweithle, gan gynnwys y risgiau o COVID-19. Gweler ynghlwm yr Asesiadau Risg ar gyfer tair Swyddfa GwE, Ymweliadau ag Ysgolion a'r Gweithlu, sy'n nodi'r risgiau a'r mesurau i reoli'r risgiau newydd hyn. Darperir hefyd gofnod o'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae'r Asesiadau Risg yn ddogfennau byw a adolygir yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y mesurau yn dal yn effeithiol ac yn ymateb i sefyllfa COVID-19.

3.2 Byddant yn cael eu hadolygu yn unol ag unrhyw newidiadau i Reoliadau Llywodraeth Cymru, a rhaid i bob agwedd a nodir gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth y fersiwn presennol i rym ar 17 Awst, 2020.

3.3. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynghori pobl i weithio o gartref oni bai bod angen busnes clir i ddychwelyd i'r gweithle. O wybod nad oes sicrwydd ynghylch pa bryd y bydd unrhyw lacio pellach ar gyfyngiadau na natur y llacio hwnnw, bydd yr asesiadau risg a'r camau gweithredu a nodir yn ein galluogi i symud yn gyflym o un senario i'r llall.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr Asesiadau Risg.

4.2. Y rhoddir awdurdod i Fwrdd Rheoli GwE gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Asesiadau Risg i ymateb i sefyllfa COVID-19, gan gydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafirws, canllawiau LIC a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Bydd hyn yn cynnwys rheoli dychwelyd i'r swyddfeydd, ysgolion a hyfforddiant wyneb yn wyneb, mewn ffordd ddiogel.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghorwyd â staff GwE a Bwrdd Rheoli GwE.

9.0 Atodiadau

Asesiad Risg ar gyfer: Swyddfeydd GwE, Ymweliadau ag Ysgolion a'r Gweithlu.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Nodaf y bydd yr aseisiadau yn cael eu hadolygu i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau perthnasol.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhllygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.
